Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig

Penodi Aelod

Dyddiad cau: 16:00 ar 26/09/22

Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud Cais	**3-4**
Atodiad A: Rôl y Aelod	**5-7**
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig	**8-10**
Atodiad C: Y broses ddethol	**11-12**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn aelod o Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig. Bydd yr aelod newydd yn ystyried apeliadau a gyflwynir gan hawlwyr sy'n anghytuno â phenderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ynghylch Grantiau a Thaliadau Gwledig. Mae'r Atodiadau amgaeedig yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig ac yna cliciwch y botwm ‘Gwneud Cais’ ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o’r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Geirdaon

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda (geirda cyflogwr a geirda personol). Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	26 Medi 2022
Llunio rhestr fer:	wythnos yn dechrau 3 Hydref 2022
Cyfweliadau:	wythnos yn dechrau 7 Tachwedd 2022

Datganiad am Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd
Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol. Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â Uned Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Manylion Cyswllt:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig a rôl yr Aelod(au) cysylltwch â Ysgrifenyddiaeth Apeliadau Annibynnol:

Ffôn: 0300 0622286
E-bost: IndependentAppealsSecretariat@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Penodi Aelod o Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig

Disgrifiad rôl
Bwriad y broses yw sicrhau bod ffermwyr neu fusnesau sy'n derbyn Grantiau a Thaliadau Gwledig sy'n teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad cywir mewn perthynas â chais neu gais yn gallu apelio drwy weithdrefn deg ac annibynnol. Mae penderfyniadau'n cael eu hadolygu i sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn wrthrychol ac wedi cymhwyso'r rheolau'n gywir wrth ddod i benderfyniad.

Rôl a chyfrifoldebau.
Mae aelodau'r panel yn adolygu dehongliad swyddogion o'r rheolau perthnasol ac yn eu cymhwyso ac yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd. Maent yn ystyried ffeithiau'r achos ynghyd â Rheoliadau'r UE a deddfwriaeth ddomestig.

Mae'n ofynnol i aelodau'r panel:

- Cymryd rhan weithredol mewn gwrandawiadau apêl, gan ddangos eu bod yn gyfarwydd â materion allweddol - gan gynnwys gwybodaeth am bapurau apêl a deddfwriaeth berthnasol.

- Rhoi barn annibynnol ar yr achosion a gyflwynwyd.

- Gwneud argymhellion i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, ac i'r Trefnydd.

- Cyfarfod mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru yn ôl yr angen.

- Mynychu cyfnod sefydlu cyn dechrau unrhyw apeliadau a hyfforddiant blynyddol pellach.

Mae gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd y pŵer o dan Reoliadau Cymorthdaliadau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (OS 2001/2537) i gadarnhau, diwygio neu ddirymu argymhellion a wnaed gan y Panel Apeliadau Annibynnol.

Manyleb y Person
Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

(Gall apelyddion ofyn am gael eu clywed yn eu dewis iaith fel y gellir cynnal gwrandawiadau yn Gymraeg. Er mwyn hwyluso dealltwriaeth gydag apelwyr mae'n bwysig bod cyfran o'r aelodau newydd a benodir i'r Panel yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Y gallu i gynnal busnes drwy gyfrwng y Gymraeg felly yn ofyniad hanfodol ar gyfer o leiaf 5-6 o benodeion (darperir cyfieithu ar y pryd ar gyfer sefyllfaoedd lle nad oes aelodau panel sy'n siarad Cymraeg ar gael).

Meini Prawf Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, barn gytbwys a dideueddrwydd.
- Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant.
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm.
- Gwybodaeth a phrofiad helaeth o faterion amaethyddol a systemau ffermio.
- Dealltwriaeth o o leiaf un: y gadwyn gyflenwi prosesu bwyd a ffermio cynaliadwy, ffermio cynaliadwy, y diwydiant pren, y sector pysgodfeydd a datblygu gwledig.
- Gwybodaeth am Grantiau a Thaliadau Gwledig a'r prosesau sy'n ymwneud â'u gweinyddiaeth.
- Y gallu i ddehongli rheolau a rheoliadau'r UE a'r DU.
- Dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i Egwyddorion Nolan

Y Gymraeg
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer o leiaf 5-6 aelod o'r Panel. Dylech nodi eich sgiliau Cymraeg yn eich cais.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Corfforol gyda'r posibilrwydd o gyfarfodydd rhithwir ledled Cymru yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Ymrwymiad Amser:	Dim mwy na 5 diwrnod y flwyddyn
Cyfnod y swydd:	3 blynedd i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o ail-benodi am gyfnod o hyd at ddeng mlynedd yn amodol ar adolygiad blynyddol.
Tâl:	Mae aelodau'r panel yn cael £200 y diwrnod a £75 os gwrandewir tair apêl neu fwy mewn un diwrnod. Gellir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill a all godi wrth weithio i'r panel apeliadau annibynnol oddi wrth Lywodraeth Cymru o fewn terfynau cydnabyddedig. Gall aelodau'r panel hefyd fod yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau gofal plant / gofalu am yr henoed / cyflogi gofalwr cynorthwyol, wrth iddynt wneud gwaith ar ran y panel.

Cymhwysedd
Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd bob amser yn cynnal hyder y cyhoedd.

Ni allwn ystyried ceisiadau gan aelodau o Lywodraeth Cymru, na Senedd San Steffan. Yn yr un modd, ni fydd unrhyw aelod o'r panel a ddewisir fel ymgeisydd posibl ar gyfer etholiadau Senedd Cymru neu Senedd San Steffan yn cael ystyried apeliadau yn ystod cyfnod eu hymgeisyddiaeth ac os cânt eu dewis, cânt eu hysbysu o'r angen i derfynu. eu haelodaeth o'r panel.

Ni allwn ychwaith ystyried ceisiadau gan weithwyr a sefydliadau Llywodraeth Cymru a gefnogir ganddi.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd bod aelodaeth o'r Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig yn swydd sy'n anghymhwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Anghymhwyso Senedd Cymru) 2020.
Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk).

Gwrthdaro buddiannau
Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o'r Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy
Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddidoli'n llwyddiannus i gyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i gyfryngau cymdeithasol a chwiliadau Rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Mae fersiwn Gymraeg ar gael gan yr Uned Penodiadau Cyhoeddus

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau'r Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig

Cefndir

Sefydlwyd proses apelio annibynnol yn 2001 ar ôl ymgynghori â'r diwydiant ffermio. Bwriad y broses yw sicrhau bod ffermwyr neu fusnesau sy'n derbyn Grantiau a Thaliadau Gwledig sy'n teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad cywir mewn perthynas â hawliad neu gais yn gallu apelio drwy weithdrefn deg ac annibynnol. Mae penderfyniadau'n cael eu hadolygu i sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn wrthrychol ac wedi cymhwyso'r rheolau'n gywir wrth ddod i benderfyniad.

I ddechrau, dim ond apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r System Integredig Gweinyddu a Rheoli (IACS) 2001 (a blynyddoedd dilynol) a ystyriwyd gan y broses. Ers hynny, mae'r broses wedi'i hymestyn i gynnwys y cynlluniau canlynol. Lle bo'n briodol, gellir ychwanegu cynlluniau newydd at y rhestr hon:

Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)	Trawsgydymffurfio
Glastir Sylfaenol/Uwch	Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd
Glastir Comin	Cynllun Coetir Ffermydd
Glastir Organig	Cynllun Premiwm Tir wedi'i Wella
Glastir – Creu Coetir	Y Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth
Glastir – Adfer Coetir	Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio
Glastir – Creu Coetir (Premiwm) (GWCP)	Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd
Taliad Cynnal Glastir – Creu Coetir (GCM)	LEADER
Taliad Premiwm Glastir – Creu Coetir (GCP)	Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig
Glastir Grantiau Bach	Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig
Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren	Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy
Y Grant Busnes i Ffermydd	Y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
Grantiau Bach - Effeithlonrwydd	Y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau
Grantiau Bach – Busnes Cychwynnol Garddwriaeth	Grantiau Bach – Amgylchedd

Grantiau Bach – Creu Coetiroedd	Grantiau Bach – Gorchuddion Iardiau
Tyfu ar gyfer yr Amgylchedd	Datblygiad Garddwriaethol
Cynllun Trosi Organig	Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maetholion
Cynllun Cynllunio Creu Coetiroedd	Grant Creu Coetir
Premiwm Creu Coetir	Cynnal a Chadw Creu Coetir
Cynllun Adfer Coetir	

Mae dau gam i'r broses apelio:

Cam 1 - adolygiad gan Lywodraeth Cymru, Swyddogion Taliad Gwledig Cymru.
Cam 2 - adolygiad gan y Panel Apeliadau Annibynnol

Rôl y Bwrdd
Gelwir ar aelodau'r panel yn ôl yr angen i ffurfio Panel Cynghori Annibynnol o 3 Aelod (y bydd un ohonynt wedi cael hyfforddiant penodol fel cadeirydd y panel) i ystyried achosion a gwneud argymhellion i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd. Cynhelir gwrandawiadau ledled Cymru yn ôl yr angen a dewisir aelodau panel unigol ar sail y pellter i leoliad y gwrandawiad a'u gwybodaeth sy'n berthnasol i'r apêl. Pan fydd gwrandawiad yn cael ei drefnu, cysylltir ag aelodau panel penodol i ofyn a ydynt ar gael ar y dyddiad gofynnol ac i gadarnhau nad ydynt yn adnabod yr apelydd yn bersonol. Ni fyddai'r aelod panel yn cael gwrando ar yr apêl os yw'n adnabod yr apelydd yn dda.

Bydd y papurau achos apêl, sy'n cynnwys yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd a detholiad perthnasol o reolau a deddfwriaeth y cynllun, yn cael eu hanfon at y tri aelod panel dethol ac at yr apelydd tua 10 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad fel y gallant ymgyfarwyddo â'r achos dan sylw.

Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer pob gwrandawiad yn amrywio yn ôl yr achos dan sylw ac a yw'r apelydd wedi dewis cyflwyno ei apêl ei hun (apêl llafar) neu i'r panel yn unig ystyried dogfennau'r apêl (apêl ysgrifenedig). Fel arfer ar gyfer gwrandawiad llafar, bydd y panel yn ymgynnull (ar gyfer trafodaeth cyn gwrandawiad) hanner awr cyn i'r apelydd gyflwyno ei achos. Caniateir tua awr i'r apelydd gyflwyno ei achos ac i'r panel ofyn cwestiynau i'r apelydd a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru. Ar ôl i'r apelydd a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru adael y gwrandawiad, bydd y Panel yn cael hanner awr arall i lunio ei argymhelliad.

Yn seiliedig ar yr amser hwn mae'n arferol cynnal tri neu bedwar gwrandawiad apêl (ar lafar a / neu'n ysgrifenedig) mewn diwrnod.

Gan nad yw'n bosibl amcangyfrif pryd a faint o apeliadau cam 2 a dderbynnir mewn blwyddyn mae hefyd yn amhosibl amcangyfrif pa mor aml a ble y cynhelir gwrandawiadau apêl. Fel amcangyfrif o'r hyn i'w ddisgwyl gan aelodau'r panel, cynhaliwyd 10 panel apêl yn y 12 mis yn diweddu 31 Rhagfyr 2021.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Aelodau Panel
Y Panel Saesneg yw:
Gary Spiller – Pennaeth Uned Polisi ac Apeliadau CAP
Tom Skyrme – Uwch Gydlynydd Polisi
Judith Jones – Cadeirydd Panel Apêl Annibynnol

Y Panel Cymraeg yw:
Isabel Owen - Pennaeth Swyddfa Ranbarthol Caernarfon
Manon Parry – Rheolwraig Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid ac Apeliadau Cam 1
Rhodri Evans – Cadeirydd Panel Apêl Annibynnol

Rydym yn rhag-weld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Hydref 2022 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad yn ystod Tachwedd 2022. Cynhelir cyfweliadau ledled Cymru.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn teimlo sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y fanyleb person orau y bydd y panel yn eu dewis ar gyfer cyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd, yna byddwch hefyd yn cael eich gwahodd am gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd ag y gallwn o ddyddiad y cyfweliad i chi. Os na allwch ddod i'r cyfweliad ar y dyddiad a drefnwyd, byddwn yn ymdrechu i'w aildrefnu ond efallai na fydd yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Byddwch yn derbyn cyfathrebiad e-bost gan ganolfan geisiadau Llywodraeth Cymru i roi gwybod i chi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os cewch wahoddiad i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.

Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn credu eu bod yn 'benodadwy' yn cael eu hargymell i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod ag ymgeiswyr y

gellir eu penodi cyn gwneud penderfyniad. Os bydd, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ac ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng cyfweliad a phenderfyniad terfynol ynghylch penodiad. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu cyfweld yn cael gwybod am gynnydd.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr yn eich penodi'n aelod o'r Apeliadau Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os byddwch yn aflwyddiannus yn y cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan geisiadau Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn rhoi manylion pwy y gallwch droi atynt am adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch.

Ymholiadau
Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.
Hefyd gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
G / 08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.